

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 27 Medi 2021

- PRESENNOL:** Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)
- Y Cynghorwyr R Dew, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun Mummery, Bob Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM),
Rheolwr Sgriwtini (AGD),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr K P Hughes, T LI Hughes MBE a Dafydd Roberts.
- YMDDIHEURIADAU:** Dim

1 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2 MATERION BRYD A ARDYSTIWDYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Dim i'w hadrodd.

3 COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith fel a ganlyn:-

- 12 Gorffennaf, 2021
- 13 Medir, 2021 (Arbennig)

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith yn gywir:-

- 12 Gorffennaf, 2021
- 13 Medi, 2021 (Arbennig)

4 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Hydref, 2021 i Mai, 2022 a nodwyd y newidiadau canlynol:-

- Eitem 2 – Ymgynghoriad ar lefel Premiwm y Dreth Cyngor ar gyfer ail gartrefi – eitem wedi'i haildrefnu o 27 Medi, 2021 i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref, 2021.
- Eitem 3 – Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol – eitem wedi'i haildrefnu o 27 Medi, 2021 i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref, 2021.
- Eitem 5 – Eryliad Difrod Ffyrdd – eitem wedi'i haildrefnu o 27 Medi, 2021 i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref, 2021.
- Eitem 13 – Safle Peboc – eitem newydd wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd, 2021.
- Eitem 18 – Her Tai: Ymateb CSYM i'r sefyllfa dai lleol – eitem wedi'i haildrefnu o 13 Rhagfyr, 2021 i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr, 2022.
- Eitem 16 – Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd ar gyfer Porthladd Caergybi – eitem newydd wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 13 Rhagfyr, 2021.
- Eitem 17 – Polisi Cynnal Ffyrdd a Rheoli Asedau Priffyrdd - eitem newydd wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 13 Rhagfyr, 2021.
- Eitem 19 – Strategaeth Dai Lleol 2022-2027 – eitem newydd wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 13 Rhagfyr, 2021.
- Eitem 28 – Strategaeth Digartrefedd a Grant Cymorth Tai – eitem wedi'i threfnu newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 21 Mawrth, 2022.
- Eitem 29 – Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol – eitem newydd wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 21 Mawrth, 2022.

5 **PENDERFYNWYD cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddarau am y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a mis Mai 2022, fel y'i cyflwynwyd. MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 1, 2021/22**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 1, 2021/2022 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Deilydd y Portffolio Busnes Corfforaethol. Hwn yw'r cerdyn sgorio cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 a chaiff ei ystyried o fewn y cyd-destun sydd yn cydnabod yr heriau ehangach oedd ar ofyn y Cyngor yn Chwarter 1 yn sgil effaith y pandemig. Ar ddiwedd Ch1 mae'n galonogol bod mwyafrif y dangosyddion perfformiad sy'n cael eu monitro, 85%, yn dal i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau neu o fewn 5% i'w targedau. Cyfeiriodd at y ffaith bod y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi bod dan bwysau sylweddol yn ystod y pandemig a nodwyd bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cyhoeddi canllawiau i'w gweithredu o ran diogelwch bwyd a blaenoriaethu busnesau newydd. Hyd yma, ni dderbyniwyd cadarnhad ar y modd y dylid blaenoriaethu arolygon wedi'r pandemig o bersbectif cenedlaethol ac felly argymhellir bod y dangosydd hwn yn cael ei dynnu o'r Cerdyn Sgorio ar gyfer y flwyddyn 2021/22 a'i fonitro'n fewnol. Mae'r dangosydd perfformiad mewn perthynas ag ymatebion ysgrifenedig i gwynion cyn pen 15 diwrnod gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fod yn GOCH. Eglurodd y Deilydd Portffolio bod ymatebion llafar wedi cael eu rhoi oddi mewn i'r targed penodol ond bod ymatebion ysgrifenedig i gwynion yn ddibynnol ar ymatebion gan sefydliadau allanol. Cyfeiriodd y Deilydd Portffolio at ddangosydd 35 - canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd - sydd yn GOCH, gyda chanran o 73% yn

erbyn targed o 82%. Nododd bod materion yn ymwneud â chapasiti wedi effeithio ar y gwasanaeth yn yr Adran Gynllunio a'u bod wedi'u nodi yn yr adroddiad. Fodd bynnag, dywedodd bod gwelliannau wedi bod yn y Tîm Gorfodi yn yr Adran Gynllunio.

Aeth y Deilydd Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol ymlaen i gyfeirio at ddangosydd 32 - canran y gwastraff a gafodd ei aildefnyddio, ailgylchu neu gompostio - sydd yn GOCH, gyda pherfformiad o 64.55% yn erbyn targed o 70% ar gyfer y chwarter hwn. Mae'r perfformiad yn is na'r 67.07% a welwyd yn Ch1 2020/21 a'r 72.79% a welwyd yn Ch1 2019/20. Y pandemig yw un o'r rhesymau dros y gostyngiadau gan fod llai o bobl wedi gallu defnyddio'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref a'r cynnydd mewn gwastraff cartref bin du oherwydd bod mwy o bobl yn gweithio o'r cartref. Mae'r ffactorau eraill yn cynnwys anawsterau o ran dod o hyd i allfeydd i ailgylchu rhai defnyddiau fel y nodir yn yr adroddiad. Nodwyd bod awdurdodau lleol eraill yn wynebu'r un problemau o ran ailgylchu gwastraff penodol. Cyfeiriodd y Deilydd Portffolio hefyd at y ffaith bod gostyngiad wedi bod yn nifer y tunelli o wastraff gwyrdd a gesglir yn dilyn cyflwyno tâl am gasglu Gwastraff Gwyrdd yn Ebrill 2021. I liniaru'r tanberfformiad presennol, mae Grŵp Llywio newydd wedi cael ei sefydlu gyda chynrychiolwyr o CLILC a WRAP Cymru gyda'r nod o werthuso'r arferion gwaith presennol a dod o hyd i ffyrdd o wella perfformiad a gweithio tuag at y targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2025. Roedd y Deilydd Portffolio o'r farn y dylid penodi aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'r Grŵp Llywio.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod mesurau lliniaru wedi cael eu trafod yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2021. Dywedodd hefyd bod gweithdy wedi'i gynnal ar gyfer yr Aelodau Etholedig ar 13 Gorffennaf, 2021, a'u bod wedi cytuno yn ystod y gweithdy hwnnw i gyflwyno dau ddangosydd newydd i'r cerdyn sgorio ar gyfer blwyddyn adrodd 2021/22 – boddhad cwsmeriaid â system deffon y Cyngor a rheoli newid hinsawdd.

Dywedodd yr Arweinydd bod yr adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch1 wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 13 Medi, 2021 a bod y Pwyllgor wedi ystyried y camau lliniarol a nodwyd yn yr adroddiad. Nododd bod y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i enwebu cynrychiolydd o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'r Grŵp Llywio newydd i edrych ar y materion yn ymwneud â gwastraff gwyrdd ac ailgylchu. Dywedodd hefyd bod y Pwyllgor Sgriwtini wedi nodi bod angen monitro'r ffigurau presenoldeb.

Fel Deilydd y Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo roedd y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS yn dymuno egluro bod ffigurau gwastraff gwyrdd ledled Gogledd Cymru wedi'u heffeithio gan y pandemig a bod yr unig awdurdodau sy'n casglu gwastraff biniau du'n fisol wedi gweld cynnydd mewn ffigurau casglu gwastraff. Nododd y byddai fel Deilydd Portffolio yn croesawu cael cynrychiolydd o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Grŵp Llywio newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Richard A Dew, Deilydd y Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd bod y materion yn ymwneud â chapasiti yn yr Adran Gynllunio wedi bod yn ffactor mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau cynllunio mewn pryd sydd yn GOCH, 73% yn erbyn targed o 82%. Nododd bod y gwasanaeth wedi'i effeithio gan faterion capasiti yn yr Adran Gynllunio sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Fodd bynnag, dywedodd bod gwelliant sylweddol wedi bod yn y Tîm Gorfodi yn yr Adran Gynllunio wrth ddelio â cheisiadau gorfodi. Mae'r dangosydd wedi cynyddu o 74% i 91% ac roedd yn dymuno diolch i'r Tîm Gorfodi am eu llwyddiant yn hyn o beth.

PENDERFYNWYD:-

- **derbyn adroddiad monitro' r Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch1 2021/2022, a**

nodi' r meysydd y mae' r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau

gwelliannau i' r dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad;

- enwebu cynrychiolydd o' r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i fod yn aelod o' r Grŵp Llywio a sefydlwyd yn ddiweddar, sydd yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a WRAP Cymru, i archwilio materion yn ymwneud ag ailgylchu a gwastraff gwyrdd.

6 CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2022/23 I 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith a oedd yn cynnwys y gofyniad ar y Cyngor i sefydlu system gadarn ar gyfer monitro a rheoli ei gyllideb refeniw ac elfen allweddol o'r system honno yw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Adroddodd Deilydd y Portffolio Cyllid bod y Cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac yn nodi'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses o osod y gyllideb yn flynyddol. Dywedodd ei bod hi'n anodd darogan sefyllfa ariannol y Cyngor ac yn enwedig y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru dros y tair blynedd nesaf.

Ategodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 sylwadau'r Deilydd Portffolio ei bod hi'n anodd darogan sefyllfa ariannol y Cyngor ac y disgwylir y bydd LIC ond yn darparu setliad ariannol i'r awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn nesaf pan fydd yn cyhoeddi'r setliad dros dro yn hwyrach eleni a'i bod hi'n anodd iawn penderfynu beth fydd y bwch cyllido posib ar gyfer y blynnyddoedd nesaf. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ystyried yr holl newidiadau y gwyddys amdanynt y mae'n rhaid eu hymgorffori yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2022/23, ac mae'n gwneud rhagdybiaethau mewn perthynas â'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor (cynnydd o ran costau cyflog, cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, pensiynau, cynnydd mewn costau ynni, chwyddiant cyffredinol ac ati). Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 at y prif bwysau cyllidebol a'r risgiau a wynebir gan y Cyngor sef y Codiadau Cyflog (Cyflogau staff nad ydynt yn athrawon) gyda chynnig o gynnydd o 1.75% ar hyn o bryd; Codiadau Cyflog (Cyflogau Athrawon); y cynnydd o 1.25% mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol i ariannu'r cynnydd mewn gofal cymdeithasol; Gwasanaethau Plant - cynnydd posib yn nifer y plant a gaiff eu rhoi mewn gofal; Gwasanaethau Oedolion (yr henoed, iechyd meddwl, anabledau dysgu at ati) - cynnydd yn y galw am wasanaeth; Ffioedd Gofal Nyrsio a Phreswyl i'r Henoed; Lleoliadau Ysgol All-sirol; y Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor (wrth i'r cynllun ffyrlo ddirwyn i ben fe all effeithio ar nifer y bobl a fydd yn gwneud cais am gymorth â'u taliadau Treth Cyngor).

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 at Dabl 3 yn yr adroddiad sy'n adlewyrchu effaith y Newidiadau Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a Threth Cyngor 2022/23 ar gyllid y Cyngor. Byddai gostyngiad yn y Cyllid Allanol Cyfun yn 2022/22 yn gofyn am gynnydd o rhwng 4% a 5% yn y Dreth Cyngor dim ond er mwyn cynnal y gyllideb bresennol mewn termau arian parod. Er mwyn llenwi'r bwch cyllido ar gyfer 2022/23 yn llawn, byddai angen cynnydd o 5% yn y Cyllid Allanol Cyfun, ynghyd â chynnydd o 3% yn y Dreth Cyngor, i gyllido'r gwariant net ychwanegol yn llawn.

Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones bod y pandemig, y cynllun ffyrlo a Brexit wedi achosi pwysau ariannol sylweddol a bod disgwyl i chwyddiant gynyddu i 4%. Roedd y Cynghorydd Jones yn dymuno gwybod faint o doriadau ariannol yr oedd yr Awdurdod wedi'i gwneud ers 2013. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog

Adran 151 drwy ddweud bod y broses flynyddol o osod y gyllideb yn galluogi'r Cyngor i ddarparu ychwaneg o adnoddau i wasanaethau sydd dan bwysau megis Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Nododd bod yr Awdurdod wedi llwyddo i gyflawni arbedion tybiedig gwerth £24.6m ers 2013. Mae'r toriadau ariannol yn bennaf wedi digwydd ym maes Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff, Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Hamdden a Datblygiad Economaidd a bydd yn anodd sicrhau parhad rhai gwasanaethau os byddwn yn wynebu ychwaneg o doriadau yn y dyfodol.

Holodd yr Arweinydd pa un ai a oedd y Cyngor mewn gwell sefyllfa nag yr oedd dair blynedd yn ôl mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod cronfeydd ariannol wrth gefn y Cyngor wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf a bod y Cyngor mewn gwell sefyllfa yn ariannol o ganlyniad.

PENDERFYNWYD:-

- **Bod y Cyngor yn rhoi system gadarn ar waith i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r cynllun yn amlinellu strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac mae'n nodi'r rhagdybiaethau fydd yn cael eu cynnwys yn y broses flynyddol o osod y gyllideb;**
- **Nodi cynnwys y cynllun, cymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ac ystyried sut i bontio'r bwlch cyllidol a nodir yn yr adroddiad fel rhan o'r broses ar gyfer gosod cyllideb refeniw 2022/23, fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

7 MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 1, 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith a oedd yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1 blwyddyn ariannol 2021/22.

Adroddodd y Deilydd Portffolio Cyllid bod y Cyngor wedi gosod cyllideb net ar gyfer 2021/22 gyda swm net gwariant y gwasanaethau o £147.420m. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcener ar gyfer 2021/22 yw tanwariant o £2.540m. Fodd bynnag, dywedodd y Deilydd Portffolio er y rhagwelir tanwariant yn y gyllideb eleni y rhagwelir bwlch cyllido sylweddol yn 2022/23. Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod yr adroddiad yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethu'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1, 30 Mehefin, 2021. Nododd ei bod hi'n anodd darogan beth fydd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn gan nad oes sicrwydd ynglŷn â'r pwysau a fydd yn wynebu'r Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant ac nid yw'n glir eto pryd y bydd rhai o wasanaethau'r Cyngor yn dychwelyd i normalrwydd a beth fydd y costau ychwanegol o ran darparu'r gwasanaethau hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd yn rhyddhau cyllid ychwanegol ar gyfer yr incwm a gollwyd, ond ni roddwyd ystyriaeth i hyn yn y rhagolwg. Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i ddweud y gallai'r costau dros y gaeaf effeithio ar yr amcangyfrifiadau alldro ar gyfer yr awdurdod priffyrdd ynghyd â'r pwysau ar ysbytai gyda phobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty a mynd ar ofyn gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 bod disgwyl cynnydd mewn chwyddiant ac y bydd hyn yn effeithio ar gostau'r Cyngor. Nid yw'r codiad cyflog i staff wedi'i gytuno eto ac ar hyn o bryd mae codiad o 1.75% wedi'i gynnig. Dywedodd y Cyfarwyddwr bod arian wedi'i glustnodi yn y gyllideb. Nododd bod tuedd o hyd i drosglwyddo tai i ardrethi busnes a bod modd ôl-ddyddio ad-daliadau hyd at ddwy/dair blynedd sydd yn rhoi ychwaneg o bwysau ar gyllideb y Cyngor. Nododd bod cyflwyno'r

prosiect Cartrefi Clyd, y cynnydd mewn Gofalwyr Maeth a lleoli disgyblion yn all-sirol a chyflwyniad y contract cinio ysgol newydd wedi cyfrannu at y tanwariant. Mae cyflwyno tâl am wastraff gwyrdd wedi cynyddu'r gyllideb yn ôl y disgwyl. Nododd hefyd bod y ffaith bod staff yn gweithio o'r cartref a bod mwy o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol wedi lleihau costau teithio ac offer swyddfa a chostau ynni.

Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Cyllid bod y Panel o'r farn ei bod hi'n rhy gynnar dod i unrhyw gasgliadau ynglŷn â pherfformiad gwasanaethau ar sail data Ch1 oherwydd y gallai llawer newid dros y misoedd nesaf. Mae'r elfennau sy'n debygol o gynhyrchu arbedion yn ystod y flwyddyn yn cynnwys lleoliadau all-sirol; incwm gwastraff gwyrdd. Nododd bod y Panel o'r farn bod angen monitro'r pwysau cyllidebol ar gyllideb y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Mynegwyd pryder ynglŷn â chyflwr ffyrdd a phriffyrdd a'r angen i gwblhau gwaith cynnal a chadw hanfodol ar ein ffyrdd eleni.

Roedd y Cynghorydd Jones yn dymuno nodi'r gwaith calonogol a gyflawnwyd gan yr Adran Plant a Theuluoedd mewn perthynas â phlant mewn gofal.

PENDERFYNWYD:-

- Nodi' r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a' r alldro disgwylidig ar gyfer 2021/22. Mae' r sefyllfa hon yn ddibynnol ar gymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru i gyllido' r golled incwm sy' n wynebu' r Cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol o ganlyniad i' r coronafeirws;
- Nodi' r crynodeb o' r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2021/22 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;
- Nodi' r sefyllfa mewn perthynas â' r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
- Nodi' r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2021/22 yn Atodiadau D a DD.

8 MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 1, 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Deilydd Portffolio Cyllid bod yr adroddiad yn monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. £54.253m yw cyfanswm y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021/22. Nododd mai'r disgwylidig erbyn diwedd Ch1 oedd y byddai cyfanswm o £6.396m wedi cael ei wario ond mai £5.262m a wariwyd o'r gyllideb flynyddol mewn gwirionedd gyda £706k wedi'i ymrwymo. Gweithredir nifer o gynlluniau cyfalaf tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol.

Fe ategodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 sylwadau'r Deilydd Portffolio a nododd bod y Panel Sgriwtini Cyllid wedi codi'r tebygolrwydd o newid amserlen y gyllideb gyfalaf fel y gellid gosod y gyllideb yn gynharach yn y flwyddyn er mwy galluogi i brosiectau gychwyn yn gynt ac felly osgoi tanwariant sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Nododd y byddai gosod y gyllideb gyfalaf yn gynharach yn y flwyddyn yn galluogi i brosesau tendro contractau gael eu cyflawni'n gynt ac y gellid rhoi hyn ar waith yn ystod blwyddyn

ariannol 2023/24. Amlygodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Cyfalaf fel y nodir ym Mharagraff 3 sydd yn dangos bod cynlluniau cyfalaf yn ddibynnol ar arian grant allanol ar gyfer grantiau LIC a pharhad grantiau'r UE. Nododd bod ffactorau risg mewn perthynas â'r gyllideb gyfalaf yn cynnwys y pandemig ac absenoldeb staff oherwydd eu bod yn gorfod hunan-ynysu. Y mae hefyd risgiau yn gysylltiedig â phrosiectau sydd wedi'u tendro i gontractwyr gan fod deunyddiau'n brin a phrisiau deunyddiau wedi cynyddu'n sylweddol. Aeth y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ymlaen i ddweud y daw'r rhagolygon ar gyfer y gyllideb gyfalaf yn fwy eglur yn yr adroddiad ar gyfer Ch2.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid bod y Panel wedi cael cyflwyniad llafar gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a nodwyd bod perfformiad y gyllideb gyfalaf yn Ch1 yn adlewyrchu'r patrwm tanwariant blaenorol a bod llithriadau'n debygol o dan y penawdau canlynol yn fwy na thebyg:-

Rhaglen datblygu tai'r Cyngor
Rhaglenni moderneiddio tai cyngor SATC
Addasiadau anabledd mewn ysgolion
Y rhaglen moderneiddio ysgolion
Cynlluniau atal llifogydd

Mae'r Panel yn nodi'r tanwariant yng Nghyllideb Cyfalaf 2021/22 yn Chwarter 1, nododd hefyd y tebygolrwydd y gellid gweithredu'r gyllideb gyfalaf ar wahanol amserlen yn y dyfodol er mwyn gosod y gyllideb yn gynharach yn y flwyddyn a galluogi i brosiectau gael eu rhoi ar waith yn gynt ac osgoi tanwariant sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn.

PENDERFYNWYD nodi cynnydd y gwariant a' r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2021/22 yn Chwarter 1.

9 MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 1, 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1 2021/22 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Deilydd Portffolio Cyllid bod y CRT wedi'i glustnodi ac na ellir trosglwyddo cyllid o'i gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio cyllid o gronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT. Mae'r sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer y chwarter cyntaf yn dangos gorwariant o £18k (fel y nodir yn Atodiad A) ac mae'r gwariant cyfalaf £266k yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r gwariant a ragwelir £6,293k yn is na'r gyllideb, fel y nodir yn Atodiad B. Mae'r diffyg a ragwelir (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) yn £4,906k, £4,209k yn llai na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd bod y gwariant cyfalaf yn is na'r gyllideb. Aeth y Deilydd Portffolio ymlaen i ddweud bod y pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn debygol o fod o ganlyniad i'r cynnydd mewn costau deunyddiau adeiladu.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mai £9.7m oedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT er mwyn talu am gostau a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn ariannol i ddiweddarau'r stoc dai bresennol ac i adeiladu tai cymdeithasol newydd a benthyg arian i barhau â'r prosiectau yn y tymor canolig ac yn yr hir dymor. Fe

nododd er y tanwariant y bydd cyllid cyfalaf o £4.8m ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf i ddatblygu prosiectau tai cymdeithasol newydd. Rhagwelir y bydd yr incwm refeniw rhenti yn is na'r disgwyl oherwydd yr oedi gyda'r rhaglen i adeiladu cartrefi newydd. Nodwyd mai adroddiad Ch1 yw hwn ac y rhagwelir gwariant pellach yn ystod misoedd y gaeaf.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Gwasanaethau Tai y byddai caffael hen dai Cyngor ac adeiladu tai cymdeithasol newydd yn cynyddu cyllideb refeniw'r CRT yn ystod y misoedd nesaf.

PENDERFYNWYD nodi:-

- **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1 2021/22;**
- **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2021/2022.**
 - **DIWEDDARIAD O'R PANEL GWELLA GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn cynnwys cynnydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Arweinydd a Deilydd y Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol bod yr adroddiad yn dyst i lwyddiant penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Gwaith ers 2017 i gefnogi'r gwasanaeth â chyllid pellach. Dywedodd bod yr ymgyrch barhaus i recriwtio Gofalwyr Maeth wedi cynyddu gofalwyr maeth yr Awdurdod a galluogi i fwy o blant dderbyn gofal ar Ynys Môn ac aros yn rhan o'u teulu estynedig a'u cymuned leol. Dywedodd hefyd bod awdurdodau lleol eraill nawr yn edrych ar gyflwyno model tebyg i'r un a gyflwynwyd gan yr Awdurdod hwn. Mae ymgyrch recriwtio wedi'i thargedu ar y gweill yn rhanbarthol yn 2021/22 ynghyd ag ymgyrch genedlaethol. Mae Cartrefi Clyd y Cyngor ar agor ac yn gwbl weithredol, bydd cartref arall ar gael i gynnig egwyl i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu ac mae'r cofrestriad wedi'i gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru. Aeth y deilydd portffolio ymlaen i ddweud bod cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darparu gwasanaethau mewn ffordd drawsnewidiol wedi'i lansio'n ffurfiol yng Ngwynedd a Môn; mae'r prosiectau hyn yn cael eu monitro gan Medrwn Môn a Mantell Gwynedd.

Mewn perthynas â Gwasanaethau Oedolion mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer darpariaeth tai gofal ychwanegol newydd yn parhau. Mae'r pandemig Covid 19 wedi effeithio ar y rhaglen Cysylltu Bywydau i gefnogi pobl sydd yn byw â dementia a'u gofalwyr ac mae adolygiad o'r rhaglen ar y gweill ym mis Rhagfyr a bydd y cyfleoedd i bobl ag anghenion iechyd meddwl yn cynyddu wrth i'r cyfyngiadau Covid19 gael eu llacio - mae sesiynau cefnogaeth unigol wedi ailgychwyn mewn rhai achosion. Ymgwymerwyd â gwaith i sefydlu tri Thîm Adnodau Cymunedol yn ystod y flwyddyn. Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn y ddau chwarter cyntaf o'r flwyddyn o ran datblygiad y Prototeip WCCIS ar yr Ynys. Mae'r Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu Oedolion ar waith, fodd bynnag ni fydd yr ymgynghoriad ffurfiol ar ddatblygiad ystod ehangach o gyfleoedd dyddiau o ansawdd uchel ar gyfer unigolion a'u cymunedau yn cael ei gynnal tan Gwanwyn 2022. Yn y cyfamser, mae opsiynau cymunedol yn cael eu harchwilio ar draws yr Ynys. Cyfeiriodd at arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru a gynhaliwyd rhwng 14 – 18 Mehefin, 2021 fel y nodwyd yn yr adroddiad a rhoddodd sicrwydd bod gwasanaethau rhagorol wedi'u darparu yn ystod y pandemig. Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi recriwtio Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd a Phennaeth Gwasanaeth Oedolion newydd yn ystod y cyfnod hwn ac roedd yn dymuno manteisio ar y cyfle i ddiolch Mrs Lola Richards, y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Dros Dro, am ei gwaith a chroesawodd Mr Arwel Owen a benodwyd yn ddiweddar fel Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd yn rheolaidd er gwaetha'r heriau a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemeig. Mae'r Panel yn dal i dderbyn tystiolaeth o'r gwelliannau a'r datblygiadau i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion. Mae'r Panel wedi bod yn rhan o'r Ymweliadau Laming, ac wedi trafod Ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol i Covid-19, y Tîm Adnoddau Cymunedol, y Berthynas Waith rhwng y Gwasanaethau Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adolygiad Diagnostig Annibynnol o'r Gwasanaethau Oedolion, Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru, y Tîm Teuluoedd Gwydn/IFSS a'r Adroddiad Blynyddol ar Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21.

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn dymuno diolch i'r Pwyllgor Gwaith am eu cefnogaeth mewn perthynas â'r pecyn o welliannau gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac y mae bellach yn amlwg bod yr adnoddau a gyflwynwyd i wasanaethau ac a arweiniodd at welliannau yn golygu bod yr Awdurdod yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i drigolion yr Ynys.

PENDERFYNWYD cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon gyda chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 am

**Y CYNGHORYDD LLINOS MEDI HUWS
CADEIRYDD**